

## Pecyn Recriwtio

# Rheolwyr Partneriaethau Defnyddwyr (3) (Lloegr, yr Alban a Chymru)

### Gwneud cais am y swydd hon

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 10am dydd Gwener 31 Mai

Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Am wybodaeth lawn am y swydd a manylion gwneud cais ewch i <http://www.theaudienceagency.org/our-people/vacancies/>.

Os hoffech y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar 0161 234 2956 neu [jobs@theaudienceagency.org](mailto:jobs@theaudienceagency.org)

Mae cyfweiliadau wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos yn dechrau 3 a 10 o Fehefin, yn ein swyddfa yn Llundain.

### Cefndir y swydd

Mae hwn yn amser cyffrous i *The Audience Agency*, rydym wrthi'n cefnogi bron i 1,000 o sefydliadau i ganolbwyntio mwy ar y gynulleidfa drwy'r rhaglen [Darganfod Cynulleidfa](#), un o'r rhaglenni data diwylliannol mwyaf yn y byd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sicrhau cyllid hyd at 2021/22 gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Alban Greadigol ac o ganlyniad, rydym yn cynllunio rhaglen newydd o dwf a datblygiad.

Rydym yn chwilio am o leiaf 3 Rheolwr Partneriaethau Defnyddwyr i helpu ein cymuned o ddefnyddwyr i wneud y mwyaf o wasanaethau am ddim y rhaglen Darganfod Cynulleidfa a'n hystod gynyddol o welliannau a chymorth y codir tâl amdanynt. Bydd hyn yn cynnwys hwyluso gweithdai a dehongli adroddiadau, gweithio gyda'r Pennaeth Cymorth a Chymuned a'r Cyfarwyddwr Datblygu Busnes i sicrhau gwasanaeth ardderchog i gleientiaid, ac i ddatblygu cyfleoedd busnes. Mae hwn yn gyfle delfrydol i farchnatwr llwyddiannus sy'n cael ei yrru gan ddata ac unrhyw un sy'n dymuno hogi eu sgiliau mewn asiantaeth neu gyd-destun ymgynghori.

## Crynodeb o'r swydd

Bydd y Rheolwr Partneriaethau Defnyddwyr yn helpu ein cleientiaid i ddeall yn well sut i ddefnyddio'r rhaglen Darganfod Cynulleidfa a chynhyrchion eraill, gan weithio'n agos gyda defnyddwyr (yn aml mewn grwpiau a rhwydweithiau cydweithredol) i'w helpu i ddatblygu ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar ddata. Bydd ef/hi yn canolbwyntio'n benodol ar genedl neu sector(au), yn rheoli prosiectau partneriaeth, yn casglu adborth gan ddefnyddwyr, yn mynegi eu hanghenion wrth ddatblygu cynnyrch/gwasanaeth ac yn cynhyrchu gwerth o'r berthynas.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn adnabod a chysylltu cydweithwyr â chyfleoedd - o gleientiaid unigol i sefydliadau aml-safle, a phartneriaethau sy'n seiliedig ar le.

Mae hon yn swydd amrywiol a heriol sy'n gofyn am ddealltwriaeth gadarn o'r defnydd o ddata a phartneriaethau strategol, strategaeth cynulleidfa, eiriolaeth a marchnata tactegol, yn ogystal â natur ddymunol. Mae'n swydd hynod ymgynghorol a chydweithredol, bydd deiliad y swydd yn gweithio gyda chleientiaid a chydweithwyr yn *The Audience Agency* (TAA) i fabwysiadu, addasu a chymhwyso cynhyrchion TAA.

## Trefniadau Gweithio

Rydym yn gwahodd ceisiadau am swyddi llawn amser neu ran amser. Bydd deiliad y swydd yn gweithio ar gontract gweithio gartref gyda gwaith swyddfa achlysurol (yn Llundain, Manceinion neu Gaeredin). Rydym yn edrych yn arbennig am Reolwyr Partneriaethau Defnyddwyr i gwmpasu Cymru, yr Alban a'r celfyddydau perfformio.

## Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person

Mae'r swydd yn cefnogi'r Pennaeth Partneriaethau Defnyddwyr gyda thargedau i gynyddu ymgysylltiad gan "glystyrau" sector o grwpiau cydweithredol neu feincnodi. Er bod cynhyrchu incwm yn bwysig iawn, mae gan y Rheolwr Partneriaethau Defnyddwyr gyfrifoldeb hefyd i godi ymwybyddiaeth o, ac ymgysylltiad gyda'r rhaglen a ariennir sydd ar gael am ddim, a bydd y targedau yn adlewyrchu hynny.

## Prif Gyfrifoldebau

- Datblygu a rheoli cysylltiadau gydag ystod o ddefnyddwyr unigol, grwpiau defnyddwyr ac asiantaethau cymorth cysylltiedig sydd wedi'u hadnabod

- Arddangos offer dadansoddeg a swyddogaethau cynnyrch i ddefnyddwyr, fel rhan o hyfforddiant neu weithgaredd cymorth
- Comisiynu adroddiadau cipolwg ac adroddiadau safonol gan y tîm TAA a'u cyflwyno i ddefnyddwyr
- Bod yn rhan o grwpiau defnyddwyr allweddol y rhaglen Darganfod Cynulleidfa a sicrhau bod y rhaglen Darganfod Cynulleidfa a chynhyrchion eraill yn agor cysylltiadau gwerthfawr gyda TAA. Pasio ymlaen cyfleoedd ar gyfer gwerthiannau pwrpasol.
- Deall anghenion defnyddwyr unigol a grwpiau, a'r rhwystrau rhag ymgysylltu â chynhyrchion
- Gweithio'n agos gydag uwch staff eraill i alluogi datblygu cynhyrchion a gwasanaethau deinamig, a chyfleoedd i ddatblygu'r busnes
- Adrodd yn rheolaidd ac effeithiol i'r Pennaeth Partneriaethau Defnyddwyr
- Sicrhau profiad ardderchog i ddefnyddwyr trwy drin cyfrifon, darparu cynnyrch, a rheoli cynnyrch sy'n adlewyrchu anghenion y clystyrau

### Archwilio a Rheoli Cyfrifon

- Cyflwyno defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr i gynhyrchion Darganfod Cynulleidfa a chynhyrchion ar lwyfannau eraill sydd ar gael am ddim neu am ffi
- Goruchwylio'r gwaith o osod offer a chynefino defnyddwyr a'u cefnogi i ddefnyddio offer a mewnwediadau lle bo'n briodol
- Adnabod anghenion data partneriaethau a chleientiaid eraill, gan gynnig cyngor neu lunio cynigion o ganlyniad
- Cyflwyno mewnwediad mewn ystod o leoliadau mewn ffordd ddifyr a llawn gwybodaeth, gan gynnwys mewn cyfarfodydd cleient a digwyddiadau TAA
- Cyflwyno sesiynau cymorth un i un mewn perthynas â gweithredu mewnwediad, megis Darganfod Cynulleidfa mewn sesiynau ymarfer
- Paratoi cynigion prosiect wedi'u costio, yn seiliedig ar ystod o wasanaethau Darganfod Cynulleidfa safonol, cynigion a cheisiadau gan ddefnyddio CRM i gofnodi ac olrhain y gwaith hwn
- Cyflwyno gwaith cleientiaid fel y'i cynigiwyd
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer cwsmeriaid yn eich portffolio
- Sicrhau fod cleientiaid yn cael cynhyrchion yn amserol

- Datrys materion i gynnal a chryfhau ffydd cwsmeriaid

### Partneriaethau a Datblygu Cymunedol

- Cynghori a chefnogi cydweithwyr sy'n cyflawni gweithgareddau dirprwyedig, gan ddarparu adnoddau canolog - e.e. astudiaethau achos, adroddiadau sector a systemau - e.e. olrhain ac adborth
- Rhoi cyngor i'r tîm Cymorth a Chymuned ar anghenion clystyrau a chydweithrediadau, gweithio gyda nhw i ddatblygu'r rhaglen gymunedol
- Cynrychioli TAA mewn rhwydweithiau a phartneriaethau allweddol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'ch sector neu ardal ddaearyddol
- Cynrychioli TAA mewn cynadleddau a digwyddiadau rhwydweithio allweddol, gan sicrhau'r proffil uchaf posib

Gweithio'n agos â'r tîm datblygu busnes pwrpasol

### The Audience Agency fel sefydliad dysgu

Disgwylir i'r holl staff:

- Cymryd rhan weithredol mewn holl weithgareddau cynllunio, dysgu a hyfforddi'r tîm
- Hyfforddi aelodau eraill o'r tîm ymchwil yn ôl y gofyn
- Rhannu yn fewnol y mewnwelediadau a'r pethau a ddysgwyd drwy brosiectau ymchwil a gwaith cleientiaid
- Cyfrannu at ddatblygu ffordd o weithio traws-swyddogaethol a chydweithredol
- Bod yn ymwybodol o bolisiau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth TAA a gweithredu oddi mewn iddynt
- Bod yn ymwybodol o werthoedd TAA a'u cadw mewn cof wrth wneud eich gwaith
- Yn benodol, i hyrwyddo amcanion TAA o ganolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr

# Manylion Ychwanegol am y swydd

## Monitro Cynnydd

Yn unol ag arfer busnes safonol, mae'r swyddi hyn yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o dri mis yn llwyddiannus. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn adolygu perfformiad ac addasrwydd ar gyfer y swydd.

## Cyflog, Cyfnod a Chontract

Mae'r swyddi hyn yn cael eu cynnig gyda chyflog o £29,000 - £33,000 yn dibynnu ar sgiliau a phrofiad.

## Lleoliad

Gall y swydd hon fod yn swydd gweithio gartref; ond bydd angen cytuno ar oriau swyddfa yn un o ganolfannau swyddfa TAA yng Nghymru, Caeredin / Glasgow (i'w gadarnhau) neu Fanceinion. Disgwylir i ddeiliad y swydd fynd i gyfarfodydd tîm a sesiynau briffio rheolaidd yn ein swyddfeydd yn Llundain a Manceinion. Mae cyllideb teithio flynyddol ar gael.

## Oriau

Mae oriau gweithio'r swydd hon yn hyblyg, ond rydym yn chwilio am gyfanswm o 3 aelod o staff cyfwerth â llawn amser (FTE). Gallai'r swyddi hyn gael ei llenwi gan fwy na 3 swydd ran amser a/neu rannu swyddi. Yr oriau FTE safonol yw 5 diwrnod (35 awr yr wythnos) y gellir eu gweithio'n hyblyg i gydbwysu anghenion cleientiaid a gofynion llwyth gwaith. Yr oriau swyddfa craidd yw rhwng 10:00am a 6:00pm bob dydd. Mae'r diwrnod gwaith arferol yn cynnwys egwyl cinio am awr (di-dâl). Bydd *The Audience Agency* yn ceisio bod yn hyblyg ac yn oddefgar wrth ganiatáu i staff fabwysiadu oriau sy'n addas ar gyfer amgylchiadau unigol cyn belled â nad yw'r oriau hyn yn effeithio ar effeithiolrwydd gwaith.

## Gwyliau

25 diwrnod y flwyddyn a Gwyliau Banc (pro rata i staff rhan amser)

## Pensiwn

Mae gan The Audience Agency gynllun pensiwn gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol. Byddwch yn cael manylion am y cynllun hwn yn uniongyrchol gan y darparwr pensiwn. Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig â'r cynllun hwn ar ôl tri mis o gyflogaeth. Gall gweithwyr optio allan o'r cynllun hwn os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## Manyleb Person

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y profiad, gwybodaeth, nodweddion, cymwysterau a sgiliau canlynol (H = Hanfodol / D = Dymunol):

### Profiad

- H O leiaf 3 blynedd o brofiad o farchnata neu ddatblygu cynulleidfa
- H Dealltwriaeth helaeth o anghenion sefydliadau diwylliannol yn arbennig gweithwyr proffesiynol marchnata ac ymgysylltu a rheolwyr cyffredinol
- H Profiad amlwg o drafod a chwrdd ag anghenion cleientiaid
- D Profiad o werthu/rheoli cyfrifon
- D Profiad fel hyfforddwr neu gynnig cymorth i gwsmeriaid

### Gwybodaeth

- H Gwybodaeth am sut mae sector diwylliannol y DU yn gweithio
- H Rhwydwaith proffesiynol a phroffil personol cryf
- H Dealltwriaeth o arfer da wrth ymgysylltu â chynulleidfa, datblygu a marchnata
- D Dealltwriaeth o dechnegau ac arfer ymchwil defnyddwyr
- D Gwybodaeth weithiol o offer a chynhyrchion Darganfod Cynulleidfa

### Nodweddion Personol

- H Sgiliau trefnu ac arwain rhagorol
- H Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol ardderchog
- H Gallu meithrin cysylltiadau hir dymor
- H Gallu ysgogi ac ysbrydoli
- H Sylw manwl i fanylion a'r gallu i drefnu a blaenoriaethu llwythau gwaith cymhleth
- H Hunan-ysgogol, chwilfrydig a'r gallu i weithredu ar eich liwt eich hun

### Cymwysterau

- D Marchnata

## Sgiliau

H Sgiliau trafod rhagorol

D Defnyddio data, mewnwelediadau a darganfyddiadau ymchwil ar lefel strategol a thactegol